

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru



South Wales
Fire and Rescue Service

Atodiad 1

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Adolygiad o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol

2015 - 2020

Tabl Cynnwys

Adran	Tudalen
Cyflwyniad.....	1
Sut y gwnaethom.....	2
Darganfyddiadau'r Adolygiad.....	3
Y Ffyrdd Ymlaen.....	3 a 4

Cyflwyniad

Yn 2015 cyhoeddodd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Mae'r pedwar canlyniad a restrir isod yn cipio Dyletswyddau Cyffredinol y *Ddeddf Gydraddoldeb (2010)* yn ogystal â'r Rheoliadau o fewn *Dyletswyddau Penodol Cymru*. Mae'r ddwy ddogfen gyfreithiol hyn yn nodi sut mae'n rhaid i ni fel gwasanaeth cyhoeddus hybu a chynnwys cydraddoldeb cyfle ym mhopeth y gwnawn.

Mae'r Cynllun yn amlinellu yn gyffredinol gan gychwyn o'r brig, sut y bwriadwn weithio tuag at gwrdd â'r gofynion hyn dros y pum mlynedd i ddod.

Canlyniad 1: *Mae ein gweithlu'n amrywiol, yn gydradd ei werth a chanddo fynediad i ddatblygu yn ogystal â chyfleoedd proffesiynol*

Canlyniad 2: *Defnyddiwn Strategaeth Caffael Cymru a gweithdrefnau i sicrhau y defnyddir prosesau teg a thryloyw i gefnogi BBaCh lleol a gwella cydraddoldeb ac amrywiaeth*

Canlyniad 3: *Rydym yn cael y data cywir ar yr adeg gywir gan y bobl gywir, er mwyn sicrhau bydd popeth y gwnawn yn cwrdd ag anghenion ein holl gymunedau*

Canlyniad 4: *Mae ein systemau'n caniatáu monitro ac adrodd amserol ein dyletswyddau cydraddoldeb sy'n ofynnol drwy gyfraith*


Ynghyd a'r Adolygiad hwn, fe'ch anogwn i ddarllen y [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#), ac edrych ar y camau a atodwyd, a leolir ar ein gwefan.

Sut y gwnaethom?

Wrth benderfynu ar osodiad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, roedd hi'n bwysig dechrau o'r dechrau ac adnabod ein seiliau. Er mwyn cyflawni hyn, atodwyd pob Cam Corfforaethol ar draws y Gwasanaeth i un (neu fwy) o Ganlyniadau'r Cynllun Strategol, gan y byddai hyn yn caniatáu i ni weld lle byddem yn creu newidiadau a hefyd a oedd unrhyw fylchau'n bodoli.

Ceir tabl isod sy'n dangos sut wnaethom mewn perthynas â'r Camau Corfforaethol. O gyfanswm o bedwar deg dau o gamau, cyflawnwyd dau ar hugain a chyflawnwyd pedwar ar ddeg yn rhannol.

Mae hynny'n gadael chwe cham (14%) heb eu cwblhau / heb wybodaeth ddiweddaedig



Canfyddiadau'r Adolygiad

Mae ymgorffori cydraddoldeb gwirioneddol i bopeth a wnaed gan y Gwasanaeth yn daith barhaus, ac eleni, gwelwyd gwelliannau (sut yr ydym yn gweithio gydag ac ar ran ein cymunedau) yn ogystal â meysydd penodol sydd angen mwy o sylw (sut y defnyddiwn ddata).

Am ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r hyn a wnaethpwyd gennym, gwelwch yr [Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol](#) a'r [Cynllun Gwella](#) a welir ar ein gwefan (os hoffech chi gael fersiwn bapur, mae manylion cyswllt ar gael ar ddiwedd yr adroddiad hwn).

Y Ffyrdd Ymlaen

Mae rhai meysydd allweddol y byddwn yn eu hymestyn, yn cynnwys:

- [Sicrhau](#) yr hyrwyddir cyfleoedd datblygu i bob aelod o staff
- [Argymell](#) cydymffurfio a gweithredu arfer da â'n partneriaid
- [Archwilio](#) ffyrdd ymarferol o ddefnyddio data i wasanaethu a chwrdd ag anghenion **ein holl** gymunedau'n well
- [Adeiladu'r](#) Canlyniadau Cydraddoldeb yn uniongyrchol i'r Agenda ar gyfer Gwelliant a'r Themâu Strategol
- [Adolygu'r](#) broses Asesu Risg Cydraddoldeb i dargedu adnoddau'n well o ran yr hyn yr ydym yn ei wneud a pham
- [Archwilio](#) ffyrdd newydd ystyrlon i gynyddu cynrychiolaeth amrywiol o ran staff a darparu gwasanaethau
- [Parhau](#) i hybu, dyrchafu a sefydlu ein perthnasau gyda grwpiau a eithrwyd yn hanesyddol

Ar y dudalen ganlynol, ceir tabl sy'n dangos, yn y colofnau llwyd, sut yr ymgorfforir y Canlyniadau Cydraddoldeb Strategol i'n Cyfarwyddyd Corfforaethol newydd ynghyd â sut byddant yn helpu cynyddu Bil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru.

Canlyniad Troswaol Corfforaethol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol	Amcanion Strategaethol 2016/2017	Dyletswyddau Penodol	Themâu Strategaethol (draft) 2018/19	Nod(au) Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2018/19
1. Mae ein gweithlu'n amrywiol, yn gydradd ei werth a chanddo fynediad i ddatblygu yn ogystal â chyfleoedd proffesiynol	02- Ymgysylltu ac Ymgynghori 03- Cysoni'n Hadnoddau	Y Bwlch Tal Hyfforddiant Staff Gwybodaeth a Data Cyflogi	Lleihau Risg Ymgysylltu a Chyfathrebu Atgyfnerthu Partneriaethau	Cymru Hydwyth Cymru Iachach Cymru Fwy Cyfartal Cymru o Gymunedau Cydlynus Diwylliant/Iaith Gymraeg ffynniannus
2. Defnyddiwn Strategaeth Caffael Cymru a gweithdrefnau i sicrhau y defnyddir prosesau teg a thryloyw i gefnogi BBaCh lleol a gwella cydraddoldeb ac amrywiaeth	03- Unioni ein Hadnoddau	Caffael	Meithrin Adnoddau Cynaliadwy Cofleidio Technoleg	Cymru Lewyrchus Cymru Hydwyth Cymru a Chyfrifoldeb Byd-eang
3. Rydym yn cael y data cywir ar yr adeg gywir gan y bobl gywir, er mwyn sicrhau bydd popeth y gwnawn yn cwrdd ag anghenion ein holl gymunedau	02- Ymgysylltu ac Ymgynghori 04- Defnyddio Technoleg i gwrdd â Gwelliannau'r Gwasanaeth 05- Archwilio Partneriaethau a Chyfleoedd	Hygyrchedd Data Asesu Effaith Ymgysylltu	Cofleidio Technoleg Ymgysylltu a Chyfathrebu Atgyfnerthu Partneriaethau	Cymru Iachach Cymru Fwy Cyfartal Cymru Lewyrchus Cymru o Gymunedau Cydlynus
4. Mae ein systemau'n caniatáu monitro ac adrodd amserol ein dyletswyddau cydraddoldeb sy'n ofynnol drwy gyfraith	04- Defnyddio Technoleg i gwrdd â Gwelliannau'r Gwasanaeth	Adrodd a Chyhoeddi Gosod Nodau Cynllun Cydraddoldeb Adroddiad Blynyddol Adolygu	Lleihau Risg	Cymru Fwy Cyfartal